

Diweddariad: ymatebion cwmnïau technoleg i'n galwad am weithredu i ddiogelu plant

Adroddiad

Cyhoeddwyd ar 21 Mai 2026

Cynnwys

Adran

Trosolwg.....	3
Yr hyn a ddywedodd y gwasanaethau wrthym	7
Pam wnaethon ni ysgrifennu at wasanaethau ym mis Mawrth.....	10
Crynodeb o'r ymatebion	13
Casgliadau a'r camau nesaf.....	16

Atodiad

A1 Ymatebion yn llawn	19
-----------------------------	----

Trosolwg

Ein her i'r safleoedd a'r apiau sy'n cael eu defnyddio amlaf gan blant

Daeth dyletswyddau ar wasanaethau ar-lein i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol i rym ym mis Gorffennaf 2025. Ers hynny, rydym wedi gweld llawer mwy o gwmnïau technoleg yn defnyddio sicrwydd oedran i adnabod defnyddwyr sy'n blant, a rhai newidiadau pwysig yn y mesurau diogelwch a ddefnyddir i'w cadw'n ddiogel.

Fodd bynnag, mae ein hymchwil ddiweddaraf i brofiadau plant ar-lein - a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025, ar ôl i'r dyletswyddau ddod i rym - yn dangos bod angen i gwmnïau technoleg wneud llawer mwy i ddiogelu plant. Mae saith plentyn o bob deg sy'n 11-17 oed yn cofio profi cynnwys niweidiol ar-lein - yr un lefel â'r hyn a nodwyd yn yr ymchwil a gynhaliwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2025.¹ Y gwasanaethau sy'n cael eu crybwyll dro ar ôl tro gan blant fel y safleoedd lle maen nhw'n gweld y cynnwys niweidiol hwn yw'r safleoedd mwyaf sydd fwyaf poblogaidd ymysg plant - nid gwasanaethau arbenigol. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu ein hymchwil ni ac ymchwil sefydliadau eraill dros flynyddoedd lawer. Mae'r diffyg gweithredu hanesyddol gan gwmnïau technoleg i fynd i'r afael â hyn yn peri pryder mawr. Er gwaethaf y ddadl genedlaethol am ddiogelwch plant ar y gwasanaethau hyn, mae'r diffyg gwelliannau pendant i blant yn ein hymchwil yn awgrymu, gyda'i gilydd, nad yw gwasanaethau hyd yma wedi gwneud maint y newidiadau sy'n ofynnol.

Ar 12 Mawrth, fe wnaethom ysgrifennu at y cwmnïau technoleg sydd fwyaf poblogaidd ymysg plant - Facebook, Instagram, Roblox, Snapchat, TikTok a YouTube. Fe wnaethom nodi pedwar maes lle nad oes digon yn cael ei wneud - ein gofynion - a nodi newidiadau penodol y gallai pob gwasanaeth eu gwneud i gadw plant yn y DU yn fwy diogel ar-lein. Nid oedd ein holl ofynion yn berthnasol i'r holl wasanaethau. Roeddem yn mynnu bod y gwasanaethau'n dryloyw ynghylch sut maen nhw'n diogelu plant ac yn dweud wrthym pa newidiadau y byddent yn eu gwneud yng ngoleuni'r gofynion hyn. Rhoesom saith wythnos iddynt ymateb.

Dyma oedd ein gofynion:

- **Mesurau diogelu dibynadwy rhag meithrin perthnasoedd amhriodol.** Sicrhau bod rheolaethau llym yn atal oedolion rhag gallu cysylltu â phlant nad ydynt yn eu hadnabod ar eu platfformau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn i wirio oedran defnyddwyr. Mae cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn cael effaith ddinistriol ar y rhai yr effeithir arnynt. Gall troseddau meithrin perthnasoedd amhriodol ar-lein gynnwys gorfodi plentyn i anfon delweddau rhywiol ohono'i hun, camelwa rhywiol, a threfnu cam-drin plentyn yn rhywiol wyneb yn wyneb.
- **Ffrydiau mwy diogel i blant.** Mae plant gan amlaf yn dod ar draws cynnwys niweidiol ar-lein drwy ffrydiau cynnwys personol. Rhaid i blatfformau roi'r gorau i wthio cynnwys niweidiol ar blant yn eu ffrydiau. Byddai hyn yn lleihau'r siawns y bydd plant yn dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol, fel cynnwys sy'n hyrwyddo hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, gan sicrhau nad yw llwyfannau'n cynyddu risgiau drwy eu dewisiadau dylunio.

¹ Tud. 4, Adroddiad Profiadau Plant Ar-lein 2026, Ofcom

- **Rhoi'r gorau i brofi cynnyrch ar blant.** Rhaid i gwmnïau beidio â phrofi cynnyrch newydd ar blant. Rhaid iddynt gynnal asesiadau risg ar gyfer diweddariadau sylweddol, fel lansio offer deallusrwydd artiffisial newydd, i sicrhau bod y diweddariadau hyn wedi cael eu gwneud yn ddiogel i blant cyn cael eu defnyddio a rhoi gwybod i Ofcom pan fyddant wedi gwneud hynny. Rhaid ystyried diogelwch plant cyn i nodweddion newydd eu cyrraedd. Nid yw diogelwch drwy ddylunio yn ddewisol. Dyna'r gyfraith yn y DU.
- **Polisiâu isafswm oedran effeithiol.** Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i sicrhau nad yw plant o dan bolisi isafswm oedran y gwasanaeth (13 oed a hŷn yn aml) yn gallu cael mynediad at yr ap neu'r safle. Mae hyn yn cadw plant iau allan o fannau ar-lein sydd wedi'u cynllunio ar gyfer defnyddwyr hŷn, gan leihau eu cysylltiad â chynnwys amhriodol.

Ymateb i'r her

Mewn ymateb i'n galwadau, mae rhai cwmnïau wedi gwneud ymrwymïadau newydd sylweddol i ddiogelwch plant. Mae'r holl wasanaethau y gwnaethom ysgrifennu atynt wedi ymrwymo i fynd y tu hwnt i'r hyn y mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn ei fynnu ganddynt drwy roi gwybod i Ofcom pan fyddant yn diweddarau eu hasesiadau risg, ac eithrio TikTok, a ddywedodd y byddai yn rhoi gwybod i ni lle bo angen. Bydd hyn yn golygu bod modd i Ofcom fod yn ymwybodol o gynnyrch a nodweddion newydd cyn iddynt gael eu lansio a'u darparu i blant. Gall Ofcom ofyn am yr asesiadau risg hyn a chraffu ar yr effaith y gallai newidiadau ei chael ar blant.

Ymrwymodd Snap i fabwysiadu ein holl fesurau diogelu rhag meithrin perthnasoedd amhriodol² drwy gyflwyno gosodiadau diofyn sy'n sicrhau nad yw oedolion dieithr yn gallu cysylltu â phlant, ac nad yw plant yn cael eu hannog i ehangu eu grwpiau cyfeillgarwch i ddiethriaid. Mae wedi ymrwymo i ddefnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol i sicrhau bod y mesurau diogelu hyn ar gael i bob plentyn yn y DU. Mae Snap eisoes wedi dechrau profi'r mesur hwn, gan ddefnyddio arwyddion oedran sy'n cael eu defnyddio'n barod. Mae Snap wedi dweud wrthym y bydd yn cynyddu'r gwaith dros yr haf i gyflwyno nodwedd sicrwydd oedran hynod effeithiol i holl ddefnyddwyr y DU er mwyn helpu i roi'r mesurau diogelu rhag meithrin perthnasoedd amhriodol hyn ar waith ar gyfer defnyddwyr Snapchat dan 18 oed yn y DU. Mae hwn yn gam angenrheidiol a phwysig, gan fod Snap wedi cael ei nodi mewn cyfres o astudiaethau fel gwasanaeth risg uchel ar gyfer meithrin perthnasoedd amhriodol â phlant yn y DU. Byddwn yn monitro gweithrediad y cynllun yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol ac wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf.

Ymrwymodd Meta i gryfhau ei fesurau diogelu rhag meithrin perthnasoedd amhriodol drwy ddatblygu mesurau diogelu ar gyfer plant a thrwy gyflwyno adnoddau deallusrwydd artiffisial newydd i ganfod sgysiau rhywiol â phlant. Mae hefyd yn ymestyn y defnydd o reolaethau cynnwys sensitif "tebygi i rai 13+ mewn ffilmiau" o Instagram i Facebook. Mae'n dweud y bydd hyn yn gwneud ffrydiau'n fwy diogel drwy gyfyngu ar y cynnwys mae pobl ifanc yn eu harddegau'n ei weld i lefel sy'n fwy priodol i oedran. Mae'r rhain yn newidiadau a allai gael effaith. Fodd bynnag, nid yw Meta wedi ymrwymo i roi'r holl fesurau rydym wedi'u hargymell ar waith o ran diogelu rhag meithrin perthnasoedd amhriodol, fel y nodir yn ein Codau Ymarfer ar Niwed Anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i'w wthio i fabwysiadu'r mesurau, yn enwedig ein mesur ar awgrymiadau ehangu rhwydwaith sy'n allweddol yn ein barn ni i ddiogelu plant rhag dieithriaid ar-lein.³

²Mae'r 'holl fesurau diogelu rhag meithrin perthnasoedd amhriodol' yn cyfeirio at fesurau ICU F1 ac ICU F2 yng Nghodau Ymarfer Niwed Anghyfreithlon Ofcom fel y maent yn berthnasol heddiw (a heb leihau effaith unrhyw ddiweddariadau y gallai Ofcom eu gwneud yn y dyfodol).

³Gall darparwyr gwasanaethau geisio cydymffurfio â dyletswydd berthnasol mewn ffordd arall drwy fabwysiadu'r hyn y mae'r Ddeddf yn cyfeirio ato fel mesurau amgen. Pan fyddant yn cymryd mesurau eraill, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau hefyd gadw cofnod o'r hyn maent wedi'i wneud a sut maent o'r farn ei fod yn cyflawni'r dyletswyddau perthnasol, gan gynnwys sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw penodol i bwysigrwydd diogelu rhyddid mynegiant a phreifatrwydd.

Roedd Roblox eisoes wedi'i gwneud yn anoddach i oedolion gysylltu â phlant nad ydynt yn eu hadnabod, gan ddiffodd sgwrsio llais ar gyfer plant dan 13 oed, a chyflwyno sicrwydd oedran hynod effeithiol i sicrhau bod plant yn sgwrsio â defnyddwyr mewn grwpiau oedran tebyg yn unig, ac eithrio ffrindiau dibynadwy. Mae bellach wedi ymrwymo i fynd ymhellach, gan ddefnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol i sicrhau mai dim ond gemau sy'n addas ar gyfer oedran y defnyddiwr sy'n cael eu hawgrymu a rhoi'r gallu i rieni ddiffodd gwasanaethau sgwrsio uniongyrchol yn gyfan gwbl ar gyfer plant dan 16 oed.

Nid yw TikTok a YouTube wedi ymrwymo i unrhyw newidiadau sylweddol mewn ymateb i'n gofynion penodol. Maen nhw'n honni bod eu ffrydiau eisoes yn ddiogel i blant. O'r tri, dim ond Meta wnaeth ymrwymo i welliannau newydd i ffrydiau plant ar Facebook, a fydd yn cyfateb i'r lefelau presennol o ddiogelwch sydd ar waith ar Instagram ar hyn o bryd.

Er eu bod nhw i gyd yn cydnabod pwysigrwydd polisiâu isafswm oedran, nid ydym wedi ein hargyhoeddi ar hyn o bryd bod yr ymrwymadau gan unrhyw un o'r pedwar gwasanaeth sy'n gosod isafswm oedran llym o 13 o ran eu telerau defnyddio – Snapchat, Facebook, Instagram a TikTok – yn effeithiol o ran sicrhau y byddant yn atal plant o dan 13 oed rhag cael mynediad at eu safleoedd a'u apiau.

Y camau nesaf

Rydym yn croesawu ymrwymiad Snap i weithredu i atal meithrin perthnasoedd amhriodol. Rydym yn disgwyl ei fap manwl ar gyfer newid erbyn canol mis Mehefin a byddwn yn monitro'r broses o'i roi ar waith yn ofalus.

Rydym yn croesawu ymrwymadau Meta i gryfhau ei fesurau diogelu rhag meithrin perthnasoedd amhriodol ac i wella rheolaethau cynnwys. Yn yr un modd, rydym yn disgwyl map manwl ar gyfer newid erbyn canol mis Mehefin. Byddwn yn parhau i bwysio ar y cwmni i fabwysiadu ein holl fesurau atal meithrin perthnasoedd amhriodol.

Rydym yn croesawu ymrwymadau Roblox i ddefnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol i gynnig diogelwch pellach i blant ar safleoedd sgwrsio. Byddwn yn craffu ar y broses o gyflwyno ei fesurau diogelu presennol ac yn monitro'r ymrwymadau newydd yn ofalus.

Rydym yn bryderus iawn am yr ymatebion i'r galw am ffrydiau mwy diogel. Mae ein tystiolaeth a gyhoeddwyd heddiw yn dangos mai ffrydiau personol yw'r prif lwybr y mae plant yn dod ar draws cynnwys niweidiol drwyddo.⁴ Mae'n bryderus nid yw TikTok a YouTube wedi gwneud unrhyw ymrwymadau newydd i wneud ffrydiau plant yn fwy diogel ac mae'n ymddangos eu bod yn credu bod eu dull gweithredu presennol yn ddigon da.

Rydym wedi defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i ofyn am fanylion gan Meta, TikTok a YouTube, o ystyried y lefelau uchel o ddefnydd, ynghylch sut maen nhw'n canfod ac yn atal plant rhag dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol. Rydym wedi cael ymatebion gan bob un o'r tri gwasanaeth, ac rydym yn craffu arnynt ar hyn o bryd.

Os yw ein hasesiad yn dod i'r casgliad nad yw gwasanaethau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau i ddefnyddio systemau priodol i atal plant rhag dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol, byddwn yn bwrw ymlaen â chamau gorfodi. Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio pwerau rheoleiddio newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gyflwyno adroddiadau gan pobl fedrus

⁴ Tud. 22, Adroddiad Profiadau Plant Ar-lein

⁵ Tud. 10, Adroddiad Profiadau Plant Ar-lein

a/neu wneud eu systemau'n hygyrch i'w gweld o bell. Byddwn yn rhannu ein casgliadau â'r llywodraeth wrth iddi ystyried ymatebion i'w hymgyngoriad 'Tyfu i Fyny yn y byd ar-lein', gan gynnwys rheolau newydd posibl sy'n cyfyngu ar fynediad plant at wasanaethau sydd wedi'u hadeiladu o amgylch ffrydiau personol.

Mae ein hymchwil a gyhoeddwyd heddiw yn dangos bod naw plentyn o bob deg sy'n 8-12 oed yn defnyddio gwasanaethau ar-lein sydd â gofyniad oedran sylfaenol o 13 oed a hŷn⁵, felly mae ymatebion cwmnïau i'n galw i orfodi'r gofynion hyn yn fwy effeithiol yn peri pryder. Rydym yn croesawu gwaith parhaus Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y maes hwn a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n gilydd. Rydym wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i rannu ein canfyddiadau ac i'w chynghori pe bai'r llywodraeth yn mynnu bod cwmnïau technoleg sy'n defnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol i orfodi eu polisiau isafswm oedran, y byddai angen sail gliriach mewn deddfwriaeth.

Yr hyn a ddywedodd y gwasanaethau wrthym

Ymrwymadau newydd, ond mae angen datgelu a gweithredu pellach

Yn y tabl isod rydym yn nodi'r canlyniad sylfaenol angenrheidiol ar gyfer pob un o'n gofynion, a pha wasanaethau rydym yn fwyaf pryderus amdanynt. Y gwasanaethau blaenoriaeth yw'r rhai lle'r oeddem yn disgwyl gweld ymrwymadau newydd, penodol i newid, gan nad oeddem o'r farn eu bod yn gwneud digon i a ddiogelu plant rhag niwed.

Nid oedd pob gwasanaeth yn flaenoriaeth ar gyfer ein holl ofynion, er enghraifft oherwydd nad yw'r gwasanaeth hwnnw'n cynnig swyddogaethau perthnasol, neu oherwydd bod ei swyddogaeth yn peri risg isel.

Nid yw'r tabl yn asesiad o effaith y newidiadau, gan nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto. Yn hytrach, mae'n rhoi cipolwg sy'n dangos parodrwydd y gwasanaethau i wneud newidiadau i wella diogelwch plant ar-lein yn dilyn ein her. Yn ogystal, nid yw'r adroddiad hwn yn asesiad o gydymffurfiaid gwasanaethau â'r Ddeddf. Os na fydd gwasanaethau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau i ddiogelu plant, byddwn yn gweithredu a, lle bo angen, yn cymryd camau gorfodi.⁶

Y Canlyniad Sylfaenol Angenrheidiol	Gwasanaethau blaenoriaeth	Statws y canlyniad	Beth sy'n digwydd nesaf?
Amddiffyn rhag meithrin perthnasoedd amhriodol Mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag i ddiethriaid gysylltu â nhw.	Snapchat Facebook Instagram Roblox	<p>Mae Snap wedi ymrwymo i fabwysiadu ein holl fesurau diogelu rhag meithrin erthnasoedd amhriodol, wedi'u cefnogi gan ddefnyddio Sicrwydd Oedran Hynod Effeithiol.</p> <p>Mae Meta yn datblygu gosodiad i reoli rhestrau cysylltiadau pobl ifanc yn eu harddegau ar Instagram.</p> <p>Mae Roblox wedi mabwysiadu mesurau diogelu sylweddol rhag meithrin perthnasoedd amhriodol, ac mae'n nodi bod sicrwydd oedran hynod effeithiol yn cefnogi'r rhain.</p>	<p>Byddwn yn monitro sut mae Snap a Meta yn rhoi eu newidiadau ymrwymedig ar waith drwy ddiweddariadau cynnydd rheolaidd a map manwl ar gyfer newid erbyn canol mis Mehefin.</p> <p>Byddwn yn parhau i werthuso'r effaith y mae mesurau diogelu Roblox rhag meithrin perthnasoedd amhriodol yn ei chael ar brofiadau plant.</p>

⁶ Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gorfodi ar gael yn [Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein](#) Ofcom.

Y Canlyniad Sylfaenol Angenrheidiol	Gwasanaethau blaenoriaeth	Statws y canlyniad	Beth sy'n digwydd nesaf?
<p>Ffrydiau cynnwys mwy diogel</p> <p>Nid yw plant yn gweld cynnwys niweidiol ar eu ffrydiau.</p>	<p>TikTok</p> <p>YouTube</p> <p>Facebook</p> <p>Instagram</p>	<p>Mae Meta wedi ymrwymo i gyflwyno gosodiadau cynnwys newydd ar gyfer defnyddwyr Facebook dan 18 oed yn y DU, ac mae'n honni y bydd hyn yn gwneud ffrydiau plant yn fwy diogel. Mae'r gosodiadau hyn eisoes ar waith ar Instagram.</p> <p>Nid yw TikTok a YouTube wedi ymrwymo i ragor o newidiadau.</p>	<p>Rydym yn cwestiynu ymatebion i'n ceisiadau am wybodaeth sy'n gyfreithiol rwydol ar systemau argymhell a chymedroli cynnwys. Rydym yn arolygu'r cwmpas i ddefnyddio pwerau newydd (fel adroddiad unigolyn medrus, pwerau gwyllo o bell a phrofi).</p>
<p>Tryloywder o ran risg</p> <p>Mae Ofcom yn cael gwybod am risgiau sy'n dod i'r amlwg cyn lansio nodweddion newydd, gan alluogi prosesau goruchwyllo amserol.</p>	<p>TikTok</p> <p>Roblox</p> <p>Snapchat</p> <p>YouTube</p> <p>Facebook</p> <p>Instagram</p>	<p>Mae Meta, Roblox, Snap a YouTube i gyd wedi ymrwymo i roi gwybod i ni pan fyddant wedi cwblhau asesiad risg newid sylweddol.</p> <p>Dywedodd TikTok y byddai'n rhoi gwybod i Ofcom pan fyddai'n diweddarau ei asesiad risg oherwydd newid sylweddol, dim ond lle fo angen.</p>	<p>Byddai tystiolaeth o ddiffygion mewn canlyniadau rheoli risg neu ddiogelwch yn sbarduno ymyriad rheoleiddiol.</p>
<p>Gorfodi'r isafswm oedran</p> <p>Mae plant o dan isafswm oed yn cael eu hatal rhag cael gafael ar wasanaethau drwy weithrediadau sicrwydd oedran hynod effeithiol.</p>	<p>Snapchat</p> <p>TikTok</p> <p>Facebook</p> <p>Instagram</p>	<p>Mae Snap, TikTok a Meta wedi nodi sut maen nhw'n gorfodi eu polisiau isafswm oedran. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi ar hyn o bryd bod yr ymrwymadau hyn yn effeithiol o ran sicrhau y byddai plant dan 13 oed yn cael eu hatal yn effeithiol rhag cael mynediad at eu safleoedd a'u apiau.</p> <p>Mae'r dystiolaeth yn dangos bod llawer o bobl ifanc o dan 13 oed yn parhau i ddefnyddio'r holl safleoedd hyn.</p>	<p>Rydym wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi gwybod pam y byddai angen pwerau ychwanegol i orfodi cyfyngiadau oedran ar wasanaethau, ac yn nodi'r cysylltiad ag ymgynghoriad byw y llywodraeth, sef 'Tyfu i Fyny yn y byd ar-lein.'</p>

Fe ddywedon ni wrth wasanaethau fod angen iddyn nhw roi sicrwydd i rieni drwy esbonio'n gyhoeddus sut maen nhw'n gwella diogelwch plant. Dim ond TikTok gyhoeddodd fersiwn o'i ymateb.⁷ Roedd eraill wedi darparu llythyrâu i Ofcom eu cyhoeddi ar eu rhan. Lle darparwyd

⁷ Ceir dolen i'r blog llawn yn Atodiad 1

ymatebion nad oeddent yn gyfrinachol, rydym wedi'u cyhoeddi'n llawn. Credwn fod yr amharodrwydd hwn i fod yn gwbl dryloyw gyda rhieni a'r cyhoedd yn gyfle a gollwyd i gwmnïau ddangos pa mor ddifrifol y maent yn cymryd diogelwch plant.

Yn yr adran 'Crynodeb o'r ymatebion' rydym yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut roedd y gwasanaethau wedi ymateb i'n gofynion.

Pam wnaethon ni ysgrifennu at wasanaethau ym mis Mawrth

Mae rheolau i ddiogelu plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt (dyletswyddau diogelwch plant) bellach wedi bod mewn grym ers dros naw mis. Ar ôl i'r cyfreithiau ddod i rym, fe wnaethom flaenoriaethu dadansoddi gwasanaethau ac asesiadau risg i ddechrau er mwyn deall y risgiau o niwed i blant. Fe wnaethom ofyn am dros gant o asesiadau risg i'w dadansoddi, a'u derbyn. Er bod rhai darparwyr yn rhannu cofnodion cynhwysfawr ac wedi'u hysgrifennu'n dda, gwelsom broblemau annerbyniol gyda llawer o'r asesiadau risg a gawsom. Drwy ymgysylltu pellach, cawsom wybodaeth atodol neu asesiad risg diwygiedig gan wasanaethau, gyda llawer yn diwygio lefelau risg o ganlyniad i'n hadborth. Gwnaethom gymryd camau gorfodi yn erbyn dau ddarparwr am fetu ag ymateb i geisiadau statudol am wybodaeth, a chynnal gwaith adfer cydymffurfiaeth â Snap a arweiniodd at wneud newidiadau sylweddol i'w sgoriau risg mewn nifer o feysydd allweddol.

Mae diogelwch plant wrth galon ein gwaith. Mae ein gwaith gorfodi cynnar wedi canolbwyntio ar y safleoedd sy'n peri'r risg uchaf. Mae'r rhain yn cynnwys fforymau hunanladdiad a fforymau sy'n benodol ar gyfer aflonyddu a cham-drin nad ydynt wedi ymgysylltu'n adeiladol nac wedi dilyn ein rheolau. Mae hyn wedi sbarduno newidiadau a fydd yn gwneud plant yn fwy diogel, fel gwasanaethau rhannu ffeiliau risg uchel sy'n cyflwyno technoleg cyfateb hash i ganfod deunydd cam-drin plant, neu wasanaethau sy'n gwrthod cydymffurfio â'u dyletswyddau yn gadael marchnad y DU. O ganlyniad i'n hymgysylltiad â'r sector pornograffi a chamau gorfodi cysylltiedig, mae gwiriadau oedran i gyfyngu cynnwys pornograffig i bobl dros 18 oed yn unig wedi cael eu cyflwyno gan lawer o'r safleoedd pornograffi mwyaf poblogaidd yn y DU. Mae hyn yn cynnwys y 10 safle mwyaf poblogaidd, sydd rhyngddynt yn cyfrif am chwarter yr holl ymwelwyr â safleoedd oedolion yn y DU, yn defnyddio gwiriadau oedran.

Er gwaethaf y newidiadau hyn, o ran y gwefannau mwyaf - enwau cyfarwydd y mae plant yn eu defnyddio fwyaf - mae llawer wedi methu â rhoi diogelwch plant wrth galon eu cynnyrch. Fel y dengys ein hadroddiad Adroddiad Profiadau Plant Ar-lein a gyhoeddwyd heddiw, Facebook, Instagram, Roblox, Snapchat, TikTok a YouTube yw rhai o'r gwasanaethau mwyaf poblogaidd ymysg plant o hyd.⁸ Y platfformau hyn hefyd yw'r platfformau lle mae plant yn cofio dod ar draws cynnwys niweidiol amlaf.

Mae ymddiriedaeth y cyhoedd mewn cwmnïau technoleg mawr yn isel, ac mae'r llywodraeth yn ymgynghori ar newidiadau ehangach i ddiogelu plant ar-lein. Er bod rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd, mae'n amlwg nad yw'r cynnydd cyfyngedig yn adlewyrchu brys na graddfa'r risgiau y mae plant yn eu hwynebu. Dyna pam ein bod yn nodi ein gofynion, gan roi cyfle i TikTok, Instagram, Facebook, YouTube, Snapchat a Roblox fod yn dryloyw ynghylch sut maen nhw'n diogelu plant ac yn tynnu sylw at y newidiadau sydd eu hangen yn ein barn ni.

⁸Mae'r adroddiad profiadau plant ar-lein yn crynhoi data a dadansoddiad o brofiadau plant ar-lein cyn i'r dyletswyddau diogelwch plant ddod yn orfodadwy ar 25 Gorffennaf 2025, ac yn fuan ar ôl hynny. Nid yw'r adroddiad yn ymdrin â'r dyletswyddau diogelwch yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon. Fe wnaethom bennu'r 'gwasanaethau mwyaf poblogaidd' drwy gyfuno data ar gyrhaeddiad ac amser a dreuliwyd. Sylwch hefyd fod Roblox wedi cael ei ychwanegu at Don 2 ein Traciwr Diogelwch Plant Ar-lein, ochr yn ochr â Minecraft a Call of Duty i ddisodli 'Gemau ar-lein', felly nid oes data tebyg ar gael.

Beth mae'r Adroddiad Profiadau Plant Ar-lein yn ei ddweud wrthym

Mae darlun clir wedi cael ei roi gan ein Hadroddiad Profiadau Plant Ar-lein a gyhoeddwyd heddiw. Nid oes digon wedi newid i ddiogelu plant rhag niwed ar-lein rhwng Ton 1 ein Traciwr Diogelwch Plant Ar-lein (Mawrth - Ebrill 2025) a Thon 2 (Tachwedd - Rhagfyr 2025), er bod dyletswyddau diogelwch plant yn orfodadwy a'n Codau Ymarfer ar Ddiogelu Plant ('Codau Plant') yn dod i rym ym mis Gorffennaf 2025. Roedd plant yn dal i gofio gweld cynnwys niweidiol ar-lein ar draws y gwasanaethau ar-lein mwyaf.⁹ Canfu ein hymchwil:

- **Yn Nhon 2, dywedodd 84% o blant 8-12 oed eu bod wedi defnyddio un o'r pum prif wasanaeth ar-lein sy'n eu cyrraedd (YouTube, Facebook, TikTok, Instagram a Snapchat) mewn mis, er gwaethaf eu gofyniad oedran sylfaenol o 13 oed a hŷn.**¹⁰ Ymysg plant a oedd yn cofio dod ar draws cynnwys niweidiol ar-lein, nodwyd TikTok amlaf, ac yna YouTube,¹¹ Instagram, Snapchat, Facebook, Roblox, ymysg gwasanaethau eraill.¹²
- **Mae'r gwasanaethau sydd fwyaf poblogaidd ymysg plant wedi aros yr un fath ar draws y tonnau**, gyda YouTube yn cyrraedd y nifer fwyaf o blant, a Snapchat yn cyfrif am y rhan fwyaf o amser allan o ddiwrnod plentyn 8-14 oed.¹³ Ymysg defnyddwyr Snapchat, roedd plant yn y chwarter uchaf yn treulio 4 awr 20 munud y dydd ar gyfartaledd ar y gwasanaeth.
- **Nid oedd llawer o newid yn y cysylltiad cyffredinol â chynnwys niweidiol ar gyfer plant a phobl ifanc 11-17 oed.** Mae data o Don 2 yn dal i ddangos bod tua saith o bob deg (73%) o bobl ifanc 11-17 oed yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhyw fath o gynnwys niweidiol ar-lein mewn cyfnod o bedair wythnos, sy'n debyg i ddata Ton 1.
- **Ffrydiau personol oedd y prif lwybr o hyd at gynnwys sy'n niweidiol i blant yn Nhon 2.** Pan ofynnwyd iddynt am un achos o ddod i gysylltiad â chynnwys niweidiol, roedd ychydig dros draean (35%) o bobl ifanc 11-17 oed yn cofio dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol pan oeddent yn 'sgrolio ar eu ffrwd'. Roedd plant 11-12 oed yn dal i wynebu mwy o gysylltiad â chynnwys niweidiol wrth chwarae gêm ar-lein o'i gymharu â phlant hŷn.¹⁴
- **Cynnwys yn ymwneud â bwlio (62%) a chynnwys cas (51%) oedd y mathau mwyaf cyffredin o gynnwys niweidiol roedd plant yn eu cofio amlaf yn Nhon 2**, gyda bwlio'n dangos cynnydd sylweddol o Don 1 (58%).

⁹Mae'r term "cynnwys niweidiol" yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio ar y cyd at gynnwys prif flaenoriaeth (PPC) a chynnwys blaenoriaeth (PC) yn unig.

¹⁰Yr isafswm oedran ar gyfer Instagram, Facebook, Snapchat a TikTok yw 13. Yr isafswm oedran ar gyfer Roblox yw 5. Rhaid i ddefnyddwyr fod yn 13 oed o leiaf i ddefnyddio YouTube. Gall plant dan 13 oed ddefnyddio YouTube drwy gyfrif dan oruchwyliaeth (gyda chaniatâd eu rhieni). Nid yw'r ymchwil yn gallu canfod i ba raddau roedd pobl ifanc dan 13 oed yn defnyddio YouTube drwy eu cyfrifon eu hunain neu drwy gyfrif dan oruchwyliaeth.

¹¹Mae'r data hwn yn cyfeirio at YouTube yn benodol, nid YouTube Kids lle'r oedd llawer llai o bobl yn dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol.

¹²Roedd 25% o blant 8-17 oed yn cofio dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol ar WhatsApp, yr un mor gyffredin â Roblox.

¹³Wedi'i nodi drwy ddadansoddi data cyrhaeddiad, defnydd a nodwyd a/neu'r amser y mae plant yn ei dreulio ar y gwasanaethau hyn.

¹⁴Yn y cam hwn yn yr arolwg Traciwr Diogelwch Plant Ar-lein, rhannwyd y sampl ar sail 'cwota wedi'i lenwi leiaf' yn ôl y math o gynnwys sy'n niweidiol i blant a welwyd, er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar faint posibl y sampl ar gyfer pob math o gynnwys sy'n niweidiol i blant. Yna, cafodd pwysoliad ychwanegol ei gymhwyso i'r data i adlewyrchu'r gwir gyfran o'r math o gynnwys sy'n niweidiol i blant y daethpwyd ar ei draws.

Mae'r ymchwil yn glir. Yn syml iawn, nid yw gwasanaethau ar-lein wedi gwneud digon eto i wneud eu gwasanaethau'n ddiogel i blant. Nid yw rhai o'r gwasanaethau mwyaf wedi rhoi eu polisiau isafswm oed eu hunain ar waith yn effeithiol, sy'n golygu bod plant ymhell o dan yr isafswm oed yn gallu cael mynediad i'r safleoedd hyn. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod plant yn dal i ddod i gysylltiad â chynnwys niweidiol ar ôl i'r dyletswyddau diogelwch plant ddod i rym, ac mai ffrydiau personol oedd y prif lwybr o hyd ar gyfer cyflwyno'r cynnwys hwn iddynt.

Yn ogystal â'n canfyddiadau ein hunain, canfu ymchwil gan yr NSPCC fod troseddau meithrin perthnasoedd amhriodol ar-lein wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed ledled y DU. Roedd ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025 yn dangos bod 7,263 o droseddau 'Cyfathrebu'n Rhywiol â Phlentyn'¹⁵ wedi cael eu cofnodi y llynedd. Datgelodd yr ymchwil hefyd fod y gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio amlaf gan gyflawnwyr i dargedu plant ar-lein (mewn achosion lle gellid adnabod y llwyfan) yn cael eu harwain gan Snapchat (40%), WhatsApp (9%), Facebook ac Instagram (9%).¹⁶

¹⁵Troseddau o dan adran 15A Deddf Tramgwyddau Rhywiol 2003.

¹⁶[Mae data'n dangos sut mae troseddwyr yn defnyddio llwyfannau negeseuon preifat i ddylanwadu ar blant a meithrin perthnasoedd amhriodol | NSPCC](#)

Crynodeb o'r ymatebion

Snap

Anfonodd Snap lythyr cyfrinachol atom. Nid yw wedi cyhoeddi ei ymateb.

Mewn ymateb i'n pedwar gofyniad, dywedodd Snap y canlynol:

1. Ymrwymodd Snap i welliannau newydd i leihau'r risgiau o feithrin perthnasoedd amhriodol ar ei wasanaeth, gan ddangos y bydd yn diffodd awgrymiadau ehangu rhwydwaith ar gyfer pob defnyddiwr sy'n blentyn yn ddiodyn ac yn eithrio defnyddwyr sy'n blant rhag awgrymiadau ehangu rhwydwaith ar gyfer defnyddwyr anhysbys sy'n 18 oed neu'n hŷn yn ddiodyn, gyda'r nod bwriadol o atal dieithriaid sy'n oedolion rhag cysylltu â phlant, fel yr argymhellir gan ein Codau Ymarfer ar Niwed Anghyfreithlon. Mae wedi dechrau profi'r mesur hwn nawr, gan ddefnyddio arwyddion oedran sy'n cael eu defnyddio'n barod. Dros yr haf, bydd Snap yn cyflwyno mesurau sicrwydd oedran hynod effeithiol i holl ddefnyddwyr y DU i sicrhau bod y mesurau rhag meithrin perthnasoedd amhriodol hyn yn berthnasol i bob defnyddiwr Snapchat dan 18 oed yn y DU.
2. Ni wnaeth Snap sylwadau ar ein gofyniad am ffrydiau mwy diogel, ond nid oedd yn wasanaeth blaenoriaeth ar gyfer y maes galw hwn. Ni chafodd Snap yr RFI ar systemau argymell.
3. Mae Snap wedi ymrwymo i hysbysu Ofcom pan fydd wedi diweddarau ei hasesiad risg o achos newid sylweddol
4. Mae ein tystiolaeth yn dangos, er gwaethaf y gofyniad oedran sylfaenol o 13, efallai fod rhai pobl ifanc o dan 13 oed yn defnyddio ei wasanaeth. Mae Snap wedi ymrwymo i weithio'n gyflym i roi HEAA ar waith ac i weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom i sicrhau cynnydd o ran gorfodi'r isafswm oed. Byddwn yn dal i fonitro unrhyw ddatblygiadau yn ofalus.

Meta (Instagram a Facebook)

Anfonodd Meta lythyr cyfrinachol atom. Nid yw wedi cyhoeddi ei ymateb.

Mewn ymateb i'n pedwar gofyniad, dywedodd Meta y canlynol:

1. O ran meithrin perthnasoedd amhriodol, mae Meta wedi amlinellu cynlluniau i gyflwyno adnoddau deallusrwydd artiffisial i ganfod sgysiau rhywiol tebygol rhwng oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau mewn negeseuon uniongyrchol ar Instagram i roi gwybod i NCMEC am gyfrifon tramgwyddus a chymryd camau gorfodi priodol. Mae Meta hefyd yn datblygu gosodiad i reoli rhestrau cysylltiadau pobl ifanc yn eu harddegau ar Instagram.
2. Mewn ymateb i'n galw am ffrydiau mwy diogel, fe wnaeth Meta grynhoi ei fesurau diogelwch presennol ac amlinellodd ei gynlluniau i gyflwyno gosodiadau cynnwys sensitif llymach ar Facebook, ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sydd eisoes ar gael ar Instagram. Bydd y gosodiadau newydd hyn yn dangos cynnwys sy'n briodol i blant 13 oed a hŷn, wedi'i ysbrydoli gan feini prawf sgorio ffilmiau ac adborth rhieni. Cyfeiriodd Meta hefyd at welliannau i'w systemau deallusrwydd artiffisial i wella'r broses o gael gwared ar gynnwys niweidiol a'i atal rhag cael ei argymell.

3. Roedd Meta wedi ymrwymo i roi gwybod i Ofcom pan fydd wedi diweddarau ei asesiad risg newid sylweddol.
4. Rhannodd Meta rai newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i helpu i ganfod a dileu cyfrifon o dan 13 oed ar Facebook ac Instagram, gan gynnwys ymdrechion i ddefnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial well yn ogystal â rhagor o welliannau yn y dyfodol.

Roblox

Rhoddodd Roblox ymateb nad oedd yn gyfrinachol. Rydym wedi cyhoeddi'r ymateb nad yw'n un cyfrinachol isod. Nid yw wedi cyhoeddi ei ymateb ar wahân.

Mewn ymateb i'n pedwar gofyniad, dywedodd Roblox y canlynol.

1. Rhoddodd Roblox fanylion ynghylch sut mae mesurau presennol yn helpu i amddiffyn plant rhag y risg o feithrin perthnasoedd amhriodol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau diweddar sy'n rhoi plant mewn bandiau ar sail oedran (wedi'u cefnogi gan brosesau sicrhau oedran) fel mai dim ond gyda chyfoedion mewn ystod oedran tebyg y gallant gyfathrebu ac eithrio ffrindiau dibynadwy. Cadarnhaodd Roblox hefyd y bydd yn cyflwyno dau gyfrif newydd ar sail oedran ar gyfer defnyddwyr iau ym mis Mehefin 2026: Roblox Kids ar gyfer defnyddwyr 5 i 8 oed a Roblox Select ar gyfer defnyddwyr 9 i 15 oed. Bydd yr holl nodweddion cyfathrebu yn 'Roblox Kids' yn cael eu hanalluogi'n ddiodyfyn, tra bod sgwrsio'n cael ei gyflwyno'n raddol gyda mesurau diogelu yn 'Roblox Select', gyda chyfrifon i blant 9-12 oed â gosodiadau cyfathrebu diodyfyn gwahanol i gyfrifon plant 13-15 oed.
2. Defnyddir systemau argymell Roblox i awgrymu gemau ac eitemau chwarae gemau eraill, nid ar gyfer ffrwd ddiodyfyn ar ffurf cyfryngau cymdeithasol. Oherwydd y swyddogaeth gyfyngedig hon, nid yw ein galw am ffrydiau mwy diogel yn berthnasol i Roblox, ac ni chafodd yr RFI ei anfon ar systemau argymell.
3. Mae Roblox wedi dweud fe fydd yn ymdrechu i roi gwybod i ni pan fydd newidiad sylweddol yn arwain at ddiodyfyn ei asesiad risg.
4. Yn wahanol i'r gwasanaethau eraill y gwnaethom ysgrifennu atynt, eglurodd Roblox ei fod yn annog plant dan 13 oed i ddefnyddio ei lwyfan – 5 oed yw'r isafswm oed ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth. Nododd Roblox hefyd ei broses bresennol i bennu oedran defnyddwyr a'r cyfyngiadau oedran y mae'n eu rhoi ar waith ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Mae'n pennu oedran defnyddiwr drwy wiriad oedran yr wyneb.

YouTube

Anfonodd YouTube lythyr nad oedd yn gyfrinachol atom. Rydym wedi cyhoeddi'r ymateb nad yw'n un cyfrinachol isod. Nid yw wedi cyhoeddi'r llythyr hwn ar wahân.

Dyweddodd YouTube:

1. Mae YouTube yn nodi rhai o'i fesurau presennol sy'n ymwneud â meithrin perthnasoedd amhriodol, gan gynnwys amgylcheddau sylwadau cyfyngedig a mesurau diogelu cynnwys rhagweithiol ar gyfer cynnwys, gan gynnwys pobl ifanc dan oed.
2. Darparodd YouTube wybodaeth yn ymwneud â'i fesurau diogelu presennol ar gyfer systemau argymell. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau diogelu i leihau nifer yr argymhellion sy'n cael eu hailadrodd ar gyfer rhywfaint o gynnwys. Ni ymrwymodd i unrhyw fesurau newydd.
3. Ymrwymodd YouTube i roi gwybod i Ofcom pan fydd wedi diweddarau ei asesiad risg oherwydd newid sylweddol.
4. Darparodd YouTube wybodaeth am ei ddull o ymdrin â mynediad priodol i oedran, gan gynnwys mesurau presennol i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol, gan gynnwys YouTube Kids a Chyfrifon Pobl Ifanc dan oruchwyliaeth gwirfoddol.

TikTok

Fe wnaeth TikTok gyhoeddi blog a oedd yn cynnwys crynodeb o'r gwaith y mae wedi'i wneud i gael gwared ar gyfrifon sy'n eiddo i blant o dan 13 oed a'r camau y mae wedi'u cymryd i ddiogelu plant rhag meithrin perthnasoedd amhriodol. Mae'r blog yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau diogelwch eraill ac mae ar gael yn yr Atodiad isod. Roedd TikTok hefyd wedi darparu ymateb cyfrinachol i'n pedwar gofyniad, gan nodi'r canlynol:

1. Nododd TikTok y mesurau maent wedi'u cymryd i leihau'r risg rhag meithrin perthnasoedd amhriodol a chyfyngu ar gyswllt gan oedolion anhysbys.
2. Esboniodd TikTok sut mae ei systemau argymell yn gweithio a sut mae'r mesurau presennol yn diogelu plant rhag ffrydiau cynnwys niweidiol. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn ymgysylltu â'n RFI sy'n ymwneud â systemau argymell TikTok.
3. Ymrwymodd TikTok i ymgysylltu ag Ofcom ynghylch newidiadau i'w blatfformau a dywedodd y byddai, lle bo angen, yn rhoi gwybod i Ofcom pan fyddai'n diweddarau ei asesiad risg oherwydd newid sylweddol.
4. Mae TikTok yn nodi mai dyma'r unig wasanaeth i gyhoeddi nifer y cyfrifon dan oed tybiedig y mae'n eu dileu'n fyd-eang bob chwarter. Mae TikTok hefyd yn nodi ei broses bresennol o ganfod a dileu cyfrifon plant o dan 13 oed ar ei safle.

Casgliadau a'r camau nesaf

Mesurau diogelu dibynadwy rhag meithrin perthnasoedd amhriodol

Gwnaeth Snapchat ymrwymiad i fabwysiadu ein holl fesurau atal meithrin perthnasoedd amhriodol. Yn gyffredinol, mae hyn yn cynnwys gweithredu ein mesur ar awgrymiadau ehangu rhwydwaith ac (wedi'i ategu gan fesurau sicrwydd oedran hynod effeithiol) atal dieithriaid rhag cysylltu â phlant. Mae hwn yn gam hollbwysig o ran diogelwch plant ar-lein o ystyried bod ein hymchwil a gyhoeddwyd heddiw yn dangos bod plant yn y chwarterl uchaf o ddefnyddwyr Snapchat 8-14 oed yn treulio 4 awr ac 20 munud y dydd ar gyfartaledd yn defnyddio'r gwasanaeth.¹⁷

Mae Meta hefyd wedi ymrwymo i fabwysiadu'r mesur rhestr gysylltiadau, er nad yw eto wedi cytuno hyd yma i weithredu'r mesur diogelwch ar awgrymiadau ehangu rhwydwaith yng Nghodau Ofcom.

Rydym yn croesawu dull arloesol Roblox o ddiogelu rhag meithrin perthnasoedd amhriodol, ond bydd y mesurau diogelu hyn ond yn gweithio'n gadarn pan fydd mesurau sicrwydd oedran hynod effeithiol i'w cefnogi.

Gall meithrin perthnasoedd amhriodol arwain at ganlyniadau dinistriol, a fydd yn effeithio ar blant drwy gydol eu hoes. Felly, rydym yn croesawu'r ymrwymadau a wnaed gan Snap, Meta a Roblox i gryfhau mesurau diogelu. Fodd bynnag, rhaid trosi ymrwymadau yn weithredoedd.

Felly, byddwn yn craffu ar ba mor brydlon ac effeithiol yw'r ffordd mae Snap, Meta a Roblox yn rhoi'r newidiadau maen nhw wedi ymrwymo iddynt ar waith. I gefnogi hyn, rydym wedi gosod terfynau amser clir ar gyfer Snap a Meta, ac rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau hyn ar waith erbyn hynny. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i bwysu ar Meta i fabwysiadu'r mesur ar awgrymiadau ehangu rhwydwaith yn llawn ac yn disgwyl gweld map ar gyfer gwelliannau yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn cymryd camau ar unwaith os yw'r newidiadau y mae gwasanaethau wedi ymrwymo iddynt yn rhy araf yn cael eu gweithredu neu nad ydynt yn cael eu gweithredu'n briodol.

Ffrydiau mwy diogel i blant

Pan fydd cynnwys niweidiol yn cael ei argymhell i blant, nid yw hynny'n digwydd o ddewis y plentyn, ond drwy'r ffordd y dyluniwyd y llwyfan. Yn aml iawn, mae plant yn aml yn dod ar draws cynnwys niweidiol drwy ffrydiau cynnwys, a rhaid i blatfformau ddatrys hyn ar frys. Felly, rydym yn bryderus iawn am yr ymatebion i'r galw am ffrydiau mwy diogel. Ar y cyfan, nid oedd yr ymatebion yn nodi sut y bydd y gwasanaethau'n gwneud ffrydiau'n ddiogel i blant eu defnyddio na sut byddant yn lleihau'r cynnwys niweidiol y mae plant yn dod ar ei draws.

Nododd Meta rai newidiadau arfaethedig, gan gynnwys ehangu'r gosodiadau cynnwys newydd 13+ tebyg i'r drefn gyda ffilmiau sydd ar gael ar hyn o bryd ar Instagram i'w cyflwyno ar Facebook. Mae hyn yn cael ei groesawu, ond mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd yn lleihau niwed yn ymarferol mewn ffordd ystyrion. Yn groes i hynny, ni wnaeth YouTube na TikTok unrhyw ymrwymadau newydd. Fe wnaeth y ddau fesur wedi ailddatgan y mesurau presennol a chyfeirio at eu hymatebion i'n Ceisiadau am Fewnbwn. Mae hyn er gwaethaf ein hymchwil a gyhoeddwyd heddiw, sy'n dangos mai TikTok a YouTube yw'r gwasanaethau y mae plant yn eu cofio amlaf fel ffynonellau lle maent yn dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol, gydag ychydig dros draean yn dweud eu bod wedi dod ar draws cynnwys o'r fath wrth sgrolio drwy eu ffrwd.¹⁸

¹⁷ Tud. 4, Adroddiad Profiadau Plant Ar-lein, Ofcom, 2026

¹⁸ Tud. 23, Adroddiad Profiadau Plant Ar-lein, Ofcom 2026

Rydym nawr yn craffu ar yr ymatebion manwl a gafwyd i geisiadau am wybodaeth gan Meta, YouTube a TikTok ynghylch sut mae eu systemau argymhell yn gweithio'n ymarferol a sut maen nhw'n lleihau'r risgiau i blant. Mae'r rhain yn systemau cymhleth iawn, sydd wedi'u hawtomeiddio i raddau helaeth. Er mwyn gwirio'n annibynnol beth mae'r gwasanaethau'n ei ddweud wrthym, rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio pwerau rheoleiddio newydd, sydd wedi'u neilltuo i ni gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys mynnu bod cwmnïau technoleg yn cael adroddiadau unigolion medrus a/neu gyhoeddi hysbysiadau gwyllo o bell. Byddai defnyddio'r pwerau hyn yn rhoi cyfle i ni arsylwi systemau a phrosesau mewn amser real; asesu sut mae llwyfannau'n canfod cynnwys niweidiol; sut mae eu gwiriadau oedran yn gweithio ac a yw'r mesurau hyn yn effeithiol. Byddwn yn asesu a yw defnyddio'r pwerau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur, gan ystyried efallai mai craffu annibynnol yw'r unig ffordd o sicrhau dealltwriaeth lawn a chadarn o systemau cwmnïau, gan gydnabod y gall ymarferion o'r fath fod yn defnyddio llawer o adnoddau ac yn gymhleth i'w gweithredu.

Os na fydd gwasanaethau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau i ddiogelu plant, byddwn yn gweithredu a, lle bo angen, yn cymryd camau gorfodi.

Tryloywder o ran risg

Mae eisoes dyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau risg cyn rhoi newid sylweddol i'w gwasanaethau ar waith. Gofynnem iddynt ymrwymo i roi gwybod i ni pan fyddant wedi cwblhau'r asesiadau hyn (eithrio TikTok, gwnaeth ddweud y byddant yn ein hysbysu pan fo angen). Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol gan y Ddeddf ond mae pob gwasanaeth wedi cadarnhau y byddant yn gwneud hyn. Mae hyn yn dangos ymrwymiad o ddifrif i ddiogelwch ar-lein ac mae'n dangos parodrwydd gan wasanaethau i fynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol dan y Ddeddf.

Fodd bynnag, er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad hwn i wneud pethau'n fwy tryloyw gyda ni fel y rheoleiddiwr, rydym yn siomedig â'r tryloywder cyfyngedig i'r cyhoedd. Dim ond TikTok gyhoeddodd ymateb cyhoeddus i'n gofynion. Er bod rhai gwasanaethau wedi darparu deunydd nad oedd yn gyfrinachol i ni, roedd eraill wedi rhannu gwybodaeth yn gyfrinachol yn unig. Yn hyn o beth, fe wnaeth y gwasanaethau golli cyfle i wella tryloywder a chryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

Polisiâu isafswm oedran effeithiol

Er bod cwmnïau'n cydnabod pwysigrwydd polisiâu isafswm oedran, nid ydym wedi ein hargyhoeddi ar hyn o bryd bod yr ymrwymïadau gan unrhyw un o'r pedwar gwasanaeth sy'n gosod isafswm oedran o 13 o ran eu telerau defnyddio - Snapchat, Facebook, Instagram a TikTok - yn effeithiol o ran sicrhau y byddant yn atal plant o dan 13 oed rhag cael mynediad at eu safleoedd a'u apiau. Nid yw defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn i orfodi polisiâu isafswm oedran yn un o ofynion y Ddeddf ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth yn glir nad yw'r prosesau presennol yn ddigon da i atal mynediad gan bobl ifanc o dan 13 - mae 84% o blant 8-12 oed sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.¹⁹ Byddai sefydlu gwiriad oedran effeithiol i atal defnyddwyr dan oed rhag sefydlu cyfrif yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddiogelwch plant iau.

Gall cyfraith diogelu data fod yn ffordd o ddal cwmnïau technoleg yn atebol am orfodi cyfyngiadau ar ddefnydd pobl ifanc dan 13 oed yn effeithiol, er mwyn atal prosesu data plant iau yn anghyfreithlon. Rydym yn croesawu gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y maes hwn. Fodd bynnag, pe bai'r llywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig yn dymuno mynnu'n uniongyrchol bod cwmnïau'n gorfodi polisiâu isafswm oed, byddai angen sail gliriach mewn deddfwriaeth diogelwch ar-lein.

¹⁹ Traciwr Diogelwch Ar-lein Plant Ofcom, 2026

Rydym wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i nodi'r dadansoddiad hwn, wrth i'r llywodraeth ystyried ymatebion i'w hymgyngoriad 'Growing up in the online world'.

A1 Ymatebion yn llawn

Pan fo gwasanaethau wedi cyhoeddi eu hymatebion, rydym yn cynnwys dolen/atodi'r isod yn llawn.

Ymateb gan TikTok – Roedd yr ymateb yn gyfrinachol, ond mae'r blog ar gael [yma](#).

[Ymateb gan Roblox](#)

[Ymateb gan YouTube](#)